Proffil gwneud penderfyniadau

Mae'r proffil a'r cytundebau gwneud penderfyniadau yn ein helpu i ddeall sut mae plentyn neu berson ifanc yn gwneud penderfyniadau a pha gymorth sydd ei angen arno er mwyn bod wrth wraidd y dewisiadau am ei fywyd.

Mae'r proffil yn datgelu dewisiadau'r plentyn neu'r person ifanc ar gyfer derbyn gwybodaeth (ar lafar, yn weledol, yn ysgrifenedig), sut mae am i ddewisiadau gael eu cyflwyno, beth sy'n ei helpu i ddeall, a'r amser gorau iddo wneud penderfyniad.

Ar ôl i chi gwblhau'r proffil, symudwch ymlaen i'r cytundeb gwneud penderfyniadau.

Sut rydw i'n hoffi cael gwybodaeth	Sut i gyflwyno dewisiadau i mi	Sut y gallwch fy helpu i ddeall	Pryd yw'r amser gorau i mi wneud penderfyniadau?	Pryd yw'r amser gwaethaf i mi wneud penderfyniadau?
Yn weledol: lluniau neu wrthrychau. Ar lafar: sefyll ar yr un uchder â mi a siarad yn araf ac yn glir. Sicrhau eich bod chi wedi dal fy sylw cyn gofyn i mi wneud rhywbeth.	Yn weledol trwy'r bwrdd cyfathrebu. Darparu cymorth heb ddefnyddio gormod o eiriau.	Rhoi amser i mi brosesu'r wybodaeth. Ailadrodd y wybodaeth os oes angen. Sicrhau eich bod chi'n defnyddio'r un geiriau bob tro.	Yn fuan ar ôl setlo i mewn yn y lleoliad. Ar ôl bwyd.	Cyn neu yn syth ar ôl amser nap. Cyn prydau bwyd. Pan fydda i wedi cynhyrfu gormod. Ychydig ar ôl newid o un gweithgaredd i weithgaredd arall.

Cytundebau gwneud penderfyniadau

Mae'r cytundeb yn nodi'r penderfyniadau pwysig ym mywyd y plentyn neu'r person ifanc ac yn egluro pwy sy'n gorfod cymryd rhan yn y broses a sut.

Mae'r offerynnau hyn yn dangos i ni beth sy'n bwysig i'r plentyn neu'r person ifanc o safbwynt ei ymreolaeth, sut mae'n prosesu gwybodaeth, a pha amodau sy'n ei helpu i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

Penderfyniadau pwysig yn fy mywyd	Sut mae'n rhaid i mi fod yn rhan o'r broses	Pwy sy'n gwneud y penderfyniad terfynol?
Pa ysgol neu leoliad fydda i'n mynd iddi/iddo nesaf.	Mynychu diwrnodau blasu er mwyn: • archwilio'r amgylchedd • rhyngweithio ag athrawon a phlant eraill	Mam a Dad (gyda mewnbwn proffesiynol).
Pa gymorth sydd ei angen arnaf ar gyfer fy addysg.	Defnyddio arsylwi ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i sicrhau bod fy safbwyntiau yn cael eu cynrychioli.	Awdurdod lleol.